

Opsiyonau teithio

Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i reoli'r effaith y mae trafniadaeth a gynhyrchir gan ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd a'r gymuned leol, rydym yn eich annog lle bo modd i deithio i'r Brifysgol drwy ddulliau cynaliadwy o deithio.

Opsiyonau Teithio Cynaliadwy

Mae gorsaf reilffordd Cathays wedi'i lleoli yng nghanol ein campws ac mae www.traveline.info yn darparu manylion yr opsiynau trên a bws sydd ar gael. Rydym hefyd yn darparu manau parcio diogel i'r rhai sy'n teithio ar feic. Mae lleoedd parcio i feiciau modur ar gael ar y safle.

Parcio

Bydd angen i westeion sy'n dymuno dod â char i'r Brifysgol tra'n aros yn llety Prifysgol Caerdydd archebu lle ymlaen llaw a thalu am le gan ddefnyddio RingGo.

Darperir maes parcio yn Senghennydd, Colum Drive, Gogledd Talybont a Neuadd y Brifysgol ar gost o

- £3 am hanner diwrnod (4.5 awr)
- £6 am ddiwrnod llawn (hyd at hanner nos)

I westeion sy'n aros 7 noson neu fwy, cysylltwch â'r tîm gwasanaethau Teithio, Cludiant a Pharcio drwy ebostio carparking@caerdydd.ac.uk

Darperir parcio ar sail y cyntaf i'r felin, a rhaid ei archebu ymlaen llaw a thalu amdano cyn cyrraedd y safle gan ddefnyddio [rhaglen neu wefan RingGo](#). Mae angen nodi'r côd 39366 yn RingGo er mwyn gallu chwilio ac archebu'r maes parcio.

PWYSIG: Nid yw'r cod hwn wedi'i gynnwys ar y codau a ddangosir ar arwyddion maes parcio ar gyfer Tâl Cyhoeddus am Barcio y tu allan i oriau. Archebwch yn gynnar gan fod nifer y baeau yn gyfyngedig ac mae'r galw yn uchel.

Sicrhewch eich bod yn parcio mewn man parcio cyffredinol os ydych yn defnyddio ein côd haf. Mae'r baeau hyn wedi'u marcio'n bennaf gan linellau gwyn ac eithrio ardal maes parcio'r graean yn Senghennydd.

Mae technoleg Adnabod Rhifau Rhif Awtomatig (ANPR) ar waith yn ein meysydd parcio ac mae tîm patrolio ar droed yn cefnogi ein rheolaeth gydymffurfio.

Codi/Gollwng


Mae cilmachau a pharthau codi/gollwng wedi'u marcio'n **Oren** a cheir arwyddion clir 'Codi a gollwng yn unig' wrthynt. Gellir defnyddio'r rhain yn rhad ac am ddim am uchafswm arhosiad hyd at 30 munud.

Parcio – Bathodyn Glas

Os ydych yn ddeiliad bathodyn glas nid oes angen archebu ymlaen llaw a thalu am barcio, fodd bynnag, nodwch fod yn rhaid i chi anfon ebost at y tîm gwasanaethau Teithio, Cludiant a Pharcio yn carparking@cardiff.ac.uk i gofrestru eich cerbyd gyda'u system cyn cyrraedd. Mae'r sawl sydd â Bathodyn Glas yn gymwys i barcio mewn man parcio hygyrch neu fan parcio cyffredinol, yn rhad ac am ddim, yn amodol ar ddangos Bathodyn Glas diliys yn glir ar ffenestr flaen y cerbyd. Mae manau parcio hygyrch wedi'u marcio'n **Felyn** ac wedi'u harwyddo'n glir â 'Parcio bathodyn glas yn unig'.




- Parcio Talu Wrth Fynd (gellir ei archebu ymlaen llaw) | Pay As You Go Parking (pre - bookable)
- Gollwng / Codi | Drop off / Pick up
- Parcio Cyffredinol | General Parking
- M Parcio Cleifion | Motorcycle Parking



SENGHENNYDD


CF24 4AG / 4DS



- Parcio Talu Wrth Fynd (gellir ei archebu ymlaen llaw) | Pay As You Go Parking (pre - bookable)
- Parcio Cyffredinol | General Parking
- Gollwng / Codi | Drop off / Pick up
- Parcio i'r Anabl | Disabled Parking
- M Parcio Beiciau Modur | Motorcycle Parking

UNIVERSITY HALL & CONFERENCE CENTRE

CF23 5YB



- (28) ■ Parcio Talu Wrth Fynd (gellir ei archebu ymlaen llaw) | Pay As You Go Parking (pre - bookable)
- (100) ■ Parcio Cyffredinol | General Parking
- (1) ■ Parcio i'r Anabl | Disabled Parking
- (1) M Parcio Beiciau Modur | Motorcycle Parking
- (2) ■ Parcio Ffild y Brifysgol | University Fleet Parking
- (6) ■ Gollwng / Codi | Drop off / Pick up

TALYBONT SPORTS TRAINING VILLAGE TALYBONT NORTH & GATE CF14 3UX | CF14 3UY

- Parcio Talu Wrth Fynd (gellir ei archebu ymlaen llaw) | Pay As You Go Parking (pre - bookable)
- Parcio Cyffredinol | General Parking
- Gollwng / Codi | Drop off / Pick up
- Parcio i'r Anabl | Disabled Parking
- M Parcio Beiciau Modur | Motorcycle Parking
- Parcio Ffilyd y Brifysgol | University Fleet Parking



Travel, Transport & Parking Services

Gwasanaethau Teithio, Trafnidiaeth a Pharcio